Lefel 4

MEINI PRAWF CYMERADWYO

Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol

CHWEFROR 2020

Cynnwys

	Rhif tudalen
Cyflwyniad	1
Strwythur y Cymhwyster	2
Nodau ac Amcanion Pwnc	2
Cynnwys Pwnc	3
Cynllun Asesu	4
Deilliannau	4
Cyflwyno Cymwysterau ar gyfer eu cymeradwyo	5
Gofynion Rationale	5
Gofynion Gweithredol	6
Atodiad A	8

Mae hon yn **Ddogfen Reoleiddiol** dan **Amod B7** o'r *Amodau Cydnabod Cyffredinol (Hydref 2018)*[1]*: Cydymffurfio â Dogfennau Reoleiddio.*

[1] https://www.qualificationswales.org/english/publications/standard-conditions-of-recognition/

Cyflwyniad

Mae'r ddogfen hob yn amlinellu'r meini prawf cymeradwyo ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol. Fe'u datblygwyd drwy gyfrwng ymgysylltu â rhanddeiliaid, oedd yn cynnwys grwpiau ffocws ac arolygon ar lein. Mae'r meini prawf cymeradwyo hyn yn cynnwys y gofynion y mae'n rhaid i gorff dyfarnu gwrdd â nhw wrth ddatblygu'r deunyddiau manyleb ac asesu ar gyfer cymhwyster Lefel 4 Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol.

Bwriad y cymhwyster hwn yw datblygu'r wybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad a sgiliau sy'n sail i rôl yr ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol.

Datblygwyd y cymhwyster hwn drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol yn y sector gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC / HEIW).

Cynlluniwyd y cymhwyster hwn i'w ddarparu gan ystod o ddarparwyr addysg, gan gynnwys addysg mewn gweithle, addysg bellach ac addysg uwch, ar gyfer dysgwyr sy'n 18 oed ac yn hŷn.

Ble bo'n addas, dylai'r cymhwyster hwn alluogi dysgwyr i ddatblygu sgiliau trosglwyddadwy gan gynnwys cyfathrebu, llythrennedd, cymhwysedd digidol a rhifedd.

Bydd y meini prawf cymeradwyo ar gyfer y ddogfen hon yn dod i rym o fis Ionawr 2020, ac fe'u hadolygir yn 2022.

Ym mis Mawrth 2017, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru benderfyniad i gyfyngu ar swît newydd o gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a Gofal Plant[2] ar gyfer eu dysgu ar raglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Mae'r swît yn cynnwys cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4.

Cyfyngir holl gymwysterau'r swît i ddim ond un ffurf fesul cymhwyster dros gyfnod o bum mlynedd. Ar gyfer y cymhwyster hwn, mae'r cyfnod yn dechrau ar 1 Medi 2020. Ystyr hyn yw mai dim ond un corff dyfarnu all ddyfarnu pob cymhwyster, Ar ôl proses gaffael deg a thryloyw a ddigwyddodd rhwng Ionawr 2017 ac Awst 2017, mae Cymwysterau Cymru wedi cytundebu gyda chonsortiwm o Athrofa City & Guilds Llundain a CBAC i ddatblygu a darparu ar y cyd bod un o gymwysterau'r swît.

Bydd Cymwysterau Cymru ond yn cymeradwyo cymhwyster sy'n cwrdd â phob un o'r gofynion a amlinellir yn y ddogfen hon ynghyd â'r rheiny a amlinellir yn Amodau Safonol

[2] http://qualificationswales.org/media/2535/230517-determination-to-restrict-hsc-final-e.pdf

Cydnabod[3]. Wrth ddatblygu'r cymwysterau i gwrdd â'r gofynion hyn, rhaid i gyrff dyfarnu roi ystyriaeth i Fynediad Teg drwy Gynllun[4]. Rhaid i'r corff a gomisiynir hefyd gwrdd â phob un o'r gofynion a amlinellir yn y cytundeb consesiwn a ddyfarnwyd yn ystod cyfnodau datblygu, cymeradwyo, gweithredu a darparu'r cymhwyster.

Pan fydd gofynion y Meini Prawf Cymeradwyo Pwnc a amlinellir yn y ddogfen hon yn wahanol i'r rhai a ragnodwyd yn Amodau Safonol Cydnabod, rhoddir blaenoriaeth i'r gofynion yn y ddogfen hon.

Strwythur a Chynllun y Cymhwyster

1. Rhaid i fanyleb Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 gynnig achrediad i ddysgwyr o gymhwyster sydd ag Amser Cymhwyso Cyfansymiol (TQT) o 1200 awr (120 credyd) a bydd angen iddo gael ei ddiffinio yn unol â thelerau Oriau Dysgu dan Arweiniad (GLH).
2. Mae cymhwyster Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 yn cynnwys cynnwys gorfodol fel y nodir yn Atodiad A yn unig.
3. Rhaid i deitl y cymhwyster sy'n ymddangos ar dystysgrifau fod yn:

Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4

4. Rhaid i gynllun Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 sicrhau fod nodau ac amcanion y pwnc yn cael eu hadlewyrchu yn yr asesiadau er mwyn galluogi dysgwyr i arddangos eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth.

Nodau ac amcanion y pwnc

5. Rhaid i Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 alluogi dysgwyr i ddatblygu ac arddangos eu gwybodaeth, dealltwriaeth, sgiliau ac ymarfer. Yn enwedig, dylai dysgwyr fod yn gallu dangos eu bod yn:

    5.1. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau er mwyn ymarfer yn effeithiol fel Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol;

[3] http://qualifications.wales/english/our-work/regulating-awarding-bodies/monitoring-awarding-bodies/
[4] https://qualificationswales.org/media/4739/fair-access-by-design.pdf

5.2. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n cynnal atebolrwydd proffesiynol yn eu rôl fel Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol;

5.3. datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i rôl Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol;

5.4. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n sicrhau fod ymgysylltiad a chyfranogiad unigolion a gofalwyr yn cael ei hybu;

5.5. datblygu sgiliau fel rhan o dîm sy'n cefnogi unigolion a/neu ofalwyr i gyflawni'u deilliannau personol;

5.6. datblygu a chymhwyso gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sy'n hybu diogelu unigolion a/neu ofalwyr;

5.7. datblygu a chymhwyso gwybodaeth a dealltwriaeth o ddamcaniaethau a modelau sy'n cefnogi ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn fel ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol;

5.8. datblygu sgiliau fel rhan o dîm sy'n cefnogi unigolion a gofalwyr i gynllunio ar gyfer deilliannau person-ganolog, ac sy'n hybu datblygu adnoddau cymunedol;

5.9. datblygu fel dysgwyr effeithiol ac annibynnol, ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol gyda meddwl ymholgar yng nghyd-destun rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol;

5.10. datblygu hunan-ymwybyddiaeth er mwyn gwella ymarfer yn rôl ymarferydd gwasanaethau cymdeithasol;

5.11. defnyddio sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol yn addas o fewn eu rôl.

Cynnwys y pwnc

6. Rhaid i gynnwys manyleb Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 adlewyrchu nodau ac amcanion y pwnc.

7. Rhaid i fanyleb Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 gynnwys y cynnwys gorfodol a nodir yn Atodiad A.

Cynllun asesu

8. Asesir Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 drwy gyfrwng:

    8.1 portffolio o dystiolaeth

    8.2 adroddiad myfyriol o ymarfer

    8.3 adroddiad o'r modd y defnyddir deddfwriaeth i addysgu ymarfer

    8.4 arsylwi ymarfer yn uniongyrchol; a

    8.5 trafodaeth broffesiynol.

9. Bydd pob asesiad (a fanylir ym mharagraff 8) yn gorfod ymdrin â chyfran arwyddocaol o'r cynnwys. Rhaid ymdrin â'r holl gynnwys a ddisgrifir yn Atodiad A ar draws yr asesiadau. Wrth gyflwyno'r cymhwyster ar gyfer ei gymeradwyo, bydd y corff dyfarnu'n gorfod darparu rationale sy'n esbonio'i ddull o fynd ati i benderfynu pa gynnwys yr ymdrinnir ag ef ym mha gyfran o asesiad.

10. Rhaid i'r fanyleb nodi'r math o dystiolaeth sydd angen ei gasglu i bwrpas asesu, a faint ohono sydd angen.

11. Rhaid i'r cynllun asesu sicrhau fod:

    11.1 y meini prawf a'r gofynion ar gyfer ymarfer a ymgymerir, ac asesu'r ymarfer hwn, wedi'u manylu'n glir;

    11.2 bod unrhyw amodau a ganiateir ar gyfer asesu drwy efelychu'n cael eu nodi'n glir, gan gynnwys beth fyddai'n gyfystyr ag amgylchedd gwaith credadwy.

12. Rhaid i feini prawf marcio ddangos sut y mae pob agwedd ar asesu'n berthnasol i'r deilliannau dysgu.

13. Rhaid i gyfleoedd asesu ar gyfer Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 fod ar gael drwy gydol y flwyddyn.

14. Rhaid i fanyleb Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 gynnwys manylion cyfleoedd i ailgyflwyno.

Deilliannau

15. Bydd dysgwyr sy'n llwyddo i gwblhau pob asesiad gofynnol yn cael eu hachredu.

Cyflwyno Cymwysterau ar gyfer eu cymeradwyo

16. Wrth gyflwyno cymhwyster i Gymwysterau Cymru ar gyfer ei gymeradwyo, rhaid i'r corff dyfarnu ddarparu:

    16.1 dogfen fanyleb;

    16.2 ystod gynrychioliadol o ddeunyddiau asesu sampl;

    16.3 dogfen esboniadol (dogfen rationale) yn amlinellu'r rationale ar gyfer nodweddion cynllunio allweddol y cymhwyster arfaethedig a'r modd y maent yn cyd-fynd â chanfyddiadau'r Adolygiad Sector Cymwysterau a'r System Gymwysterau mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan gynnwys gofal plant a gwaith chwarae[5]

Gofynion y Rationale

17. Pwrpas y ddogfen rationale yw cefnogi proses adolygu a chymeradwyo'r cymhwyster, ac nid yw wedi'i bwriadu ar gyfer ei chyhoeddi.

18. Rhaid i'r ddogfen rationale gynnwys esboniad ar gyfer

    18.1 strwythur y cymhwyster, gan esbonio'r rhesymau dros strwythuro'r cynnwys fel y gwnaed;

    18.2 y ffordd o fynd ati i ddatblygu tasgau;

    18.3 y strwythur asesu, gan gynnwys ble bo'n addas, nifer, dynodiad marciau a hyd asesiadau;

    18.4 argaeledd cyfleoedd asesu a'r dull o sicrhau fod y cyfleoedd hynny ar gael drwy gydol y flwyddyn;

    18.5 dehongliad o'r deilliannau dysgu a sut y'u cymhwysir i wahanol gydrannau'r asesiad;

    18.6 cynllun deunyddiau asesu sampl a chanllawiau, gan gynnwys y math a'r ystod o dasgau asesu ar draws y cymhwyster a'u perthynas â'r deilliannau dysgu;

    18.7 sut y cynllunnir ac y cymhwysir meini prawf marcio;

[5] http://qualifications.wales/english/qualifications/vocational-qualifications/sector-reviews/health-social-care-and-childcare/

18.8 sut mae'r cymhwyster yn adlewyrchu cyd-destun Cymreig;

18.9 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymwysterau hyn gyda chysondeb ac i'r lefel addas, gan gynnwys y broses ar gyfer gosod a chynnal safonau;

18.10 y broses a ddefnyddir i ddyfarnu'r cymhwyster, gan gynnwys rationale ar gyfer y ffin pasio / methu arfaethedig ar lefel asesu a chymhwyster.

Gofynion Gweithredol

18. Rhaid i'r fanyleb a / neu wybodaeth sy'n ei chefnogi nodi'r gofynion gwybodaeth a chymhwysedd (o ran pwnc ac asesu / gwarantu ansawdd) sy'n ofynnol i aseswyr, gwarantwyr ansawdd mewnol a gwarantwyr ansawdd allanol eu cael sy'n addas ar gyfer cymhwyster ar y lefel hon.

19. Rhaid i fanyleb y cymhwyster gynnwys manylion clir am ofynion gweithredu gan gynnwys:

19.1 ymgeisiadau;

19.2 gwarantu ansawdd;

19.3 prosesau asesu allanol.

Gwybodaeth bellach	Dylai ymholiadau am y ddogfen hon gael eu cyfeirio at: Ymholiadau Cymwysterau Adeilad Q2 Lôn Pencarn Imperial Park Coedcernyw Casnewydd NP10 8AR Enquires@qualificationswales.org

Atodiad A - Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4

Rhaid i'r fanyleb Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol Lefel 4 gynnwys y cynnwys a deilliannau dysgu canlynol. Mae hyn yn 100% o gynnwys a deilliannau dysgu cyfan y cymhwyster.

Meysydd Pwnc	Deilliannau Dysgu
1. Deall deddfwriaeth yng nghyd-destun rôl yr Ymarferydd Gwasanaethau Cymdeithasol	1.1. Deall pwysigrwydd datblygu gwybodaeth am ddeddfwriaeth a safonau sy'n gymwys yng Nghymru 1.2. Deall Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 1.3. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc 1.4. Deall Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 1.5. Deall y Ddeddf Hawliau Dynol 1.6. Deall y Ddeddf Gydraddoldeb 1.7. Deall y Ddeddf Galluedd Meddyliol 1.8. Deall y Ddeddf Iechyd Meddwl 1.9. Deall deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r Gymraeg
2. Ymarfer Proffesiynol	2.1. Sicrhau fod datblygiad proffesiynol parhaus yr unigolyn yn cwrdd â safonau a gofynion ac yn adlewyrchu arfer orau yng nghyd-destun gweithio yng Nghymru 2.2. Cwrdd â gofynion ar gyfer cyflwyno, cofnodi, adrodd ar wybodaeth a'i storio 2.3. Datblygu gweithio effeithiol mewn partneriaeth
3. Deall theorïau a modelau a'u perthynas ag ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau'n seiliedig ar hawliau	3.1. Deall theorïau a modelau sy'n cefnogi ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau'n seiliedig ar hawliau 3.2. Deall datblygiad dynol ar draws oes gyfan a'r ffactorau a all effeithio arno 3.3. Deall theorïau a modelau sy'n ymwneud â newid 3.4. Deall pwysigrwydd defnyddio ymarfer person/plentyn-ganolog a dulliau'n seiliedig ar hawliau
4. Deall ffactorau sy'n cyfrannu at angen	4.1. Deall sut y mae fframweithiau deddfwriaethol, polisi cenedlaethol a modelau o ddarparu

unigolion a / neu ofalwyr am ofal a chefnogaeth	gwasanaeth yn bwriadu bod yn sail i ofal a chefnogaeth a seilir ar hawliau a chryfderau, a ganolir ar y person / plentyn ac sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau 4.2. Deall y rhesymau pam y gall fod angen i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd / gofalwyr ddefnyddio cefnogaeth a / neu wasanaethau 4.3. Deall cyd-destun gofalwyr yng Nghymru 4.4. Deall cysyniad anabledd a nam corfforol 4.5. Deall afiechyd meddwl 4.6. Deall dementia 4.7. Deall anableddau dysgu ac awtistiaeth 4.8. Deall colli'r synhwyrau 4.9. Deall anaf i'r ymennydd 4.10. Deall defnyddio a chamddefnyddio sylweddau
5. Cefnogi'r broses asesu a gofal a chynllunio cefnogaeth	5.1. Deall y broses a gofynion ar gyfer asesu a gofal a chynllunio cefnogaeth 5.2. Sut i gael sgyrsiau ystyrlon ag unigolion a'u teuluoedd / gofalwyr am yr hyn sy'n bwysig iddynt a'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt 5.3. Cefnogi'r broses asesu yn unol â rôl, cyfrifoldebau, deddfwriaeth a chodau ymarfer yr hunan 5.4. Datblygu cynlluniau gofal a chefnogaeth yn seiliedig ar asesu a deilliannau a gytunwyd 5.5. Ymgymryd ag adolygu cynlluniau gofal a chefnogaeth yn unol â rôl, cyfrifoldebau, deddfwriaeth a chodau ymarfer yr hunan
6. Diogelu unigolion	6.1. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu plant a phobl ifanc 6.2. Datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiogelu oedolion mewn perygl 6.3. Defnyddio dulliau sy'n diogelu plant a phobl ifanc a/neu oedolion mewn perygl